**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref, 2011**

## BWRDD ARWAIN CENEDLAETHOL Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS A'R COMPACT CYDWEITHIO

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Nodi'r ffaith fod Bwrdd Arwain Cenedlaethol y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei sefydlu, a derbyn y diweddaraf am y Compact Cydweithio.

## Cefndir

2 Yng Ngorffennaf 2005, comisiynwyd Syr Jeremy Beecham ac arbenigwyr nodedig eraill gan Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru fel rhan o'r cynllun gweithredu ar gyfer rhoi ei *Strategaeth Creu'r Cysylltiadau* ar waith er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio'r angen i gydweithio fel ffordd i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn cael eu siapio er mwyn ateb anghenion y dinesydd.

## Bwrdd Arwain Cenedlaethol y Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Sefydlwyd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus i roi arweiniad cenedlaethol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio, ac i gyflymu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

5 Cadeirydd y Grŵp yw'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, a chyfrifoldebau allweddol y grŵp fydd:

a) sicrhau cydlyniad o ran gweithredu'r agenda gyffredinol i ddiwygio'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys goruchwylio'r Compact ac adeiladu cydlyniad gyda'r diwygiadau mewn addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a meysydd eraill;
b) noddi a gorfodi camau cenedlaethol i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus; a
c) datblygu arweiniad rhanbarthol effeithiol er mwyn cydweithio, gan adeiladu ar y strwythurau arwain rhanbarthol presennol ac ôl troed daearyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio'n rhanbarthol.

6 Mae Colin Everett, fel Cadeirydd Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) ac fel Prif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint, ar y bwrdd, ynghyd â Mary Burrows, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Penodir arweinydd rhanbarthol ar gyfer cydweithio ymhob ardal yng Nghymru.

7 Cyfarfu'r bwrdd am y tro cyntaf ar 22ain Medi, ac mae wedi amlinellu Cylch Gorchwyl, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

## Compact ar gyfer Cydweithio

8 Ym Mai 2011, cytunodd Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas yr WLGA mai'r Gymdeithas honno ddylai arwain y gwaith o ddatblygu Compact rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio'n genedlaethol ac yn rhanbarthol.

9 Bydd y Compact yn cael ei awdurdodi gan y pedwar bwrdd partneriaeth/arwain rhanbarthol, ynghyd â thrafodaethau uniongyrchol gyda chyrff proffesiynol megis Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.

10 Mae Bwrdd Arwain Gogledd Cymru wedi cefnogi'r Compact yn fras, ac mae'r rhanbarth eisoes yn gweithio'n gadarnhaol ac yn gynyddol i gyfeiriad saith o'r deg o gamau cydweithio sydd yn y Compact. (Atodiad 2).

11 Ym mis Hydref, bydd Pwyllgor Cydlynu WLGA yn ystyried amlinelliad drafft o'r compact, ac yna bydd pob un o'r Byrddau Partneriaeth/Arwain rhanbarthol yn ystyried y Compact drafft yn eu cyfarfodydd eu hunain.

12 Yna, bydd drafft terfynol o'r Compact yn cael ei ystyried gan y Cyngor Partneriaeth, a chyd-gytundeb gyda Llywodraeth Cymru i'w fabwysiadu yn hwyrach yn 2011.

**Argymhelliad**

13 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi bod Bwrdd Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ei sefydlu;
(ii) nodi hynt y Compact cenedlaethol ar gyfer cydweithio.

**Atodiad 1**

**Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cylch Gorchwyl**

**Cyd-destun**

1. Mae gan Lywodraeth Cymru agenda uchelgeisiol i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, a hynny'n seiliedig ar gyfres o raglenni penodol ar gyfer gwella mewn meysydd megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a llywodraeth leol, wedi ei gyplysu â dull trawsbynciol o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus, a chefnogi arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus i gael gwelliannau ac effeithlonrwydd ar adeg o gyfyngiadau ariannol sy'n parhau.

2. Ar lefel sydd ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, mae dull Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gydweithio rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach na chystadlu, symleiddio, ac ymrwymiad clir i gynllunio gwasanaethau o amgylch pobl nid sefydliadau. Mae'r dull eang hwn yn darparu cyd-destun ehangach, ynghyd â chefnogaeth, ar gyfer datblygu rhaglenni diwygio mewn meysydd penodol, a bydd angen hefyd am waith agos gyda'r trydydd sector a/neu bartneriaid o'r sector preifat i ymwneud â darparu gwasanaethau.

**Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus**

3. Mae Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu er mwyn darparu arweiniad cenedlaethol ar gyfer diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus a chydweithio, ac er mwyn cyflymu gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

4. Cadeirydd y Grŵp yw'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau, a chyfrifoldebau allweddol y Grŵp yw:
   i. sicrhau cydlyniad o ran gweithredu'r agenda gyffredinol i ddiwygio'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys goruchwylio'r Compact ac adeiladu cydlyniad gyda'r diwygiadau mewn addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a meysydd eraill;
   ii. noddi a gorfodi camau cenedlaethol i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus; a
   iii. datblygu arweiniad rhanbarthol effeithiol er mwyn cydweithio, gan adeiladu ar y strwythurau arwain rhanbarthol presennol ac ôl troed daearyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio'n rhanbarthol.

5. Bydd tair rhaglen waith genedlaethol, gyda phob un yn cael ei harwain gan un o uwch arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, yn gymorth i yrru'r agenda hon yn ei blaen
   o Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed;
   o Rheoli Asedau a Chaffael; a
   o Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson.

6. Yn ategu hyn, bydd ffocws ar sefydlu arweiniad cryf ar gyfer cydweithio ar lefel ranbarthol. Sail hyn fydd ôl troed Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithrediad a chydlyniad rhanbarthol, sy'n nodi chwe ardal, sef Gogledd Cymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru; Gwent; Caerdydd a'r Fro; Cwm Taf; a Bae Abertawe. Bydd rôl allweddol gan yr arweinwyr cydweithio rhanbarthol, ochr yn ochr â'r rhaglen waith Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson, i yrru'r Compact yn ei flaen ar lefel ranbarthol.

7. Bydd y partneriaid allweddol yn yr agenda gwasanaethau cyhoeddus, sef, undebau llafur, y trydydd sector, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, hefyd yn cyfrannu trwy

fod yn aelodau o'r Grŵp. Bydd nifer o uwch swyddogion o Lywodraeth Cymru sydd â diddordeb uniongyrchol ym meysydd yr agenda ddiwygio hefyd yn mynychu.

**Llywodraethu ac Atebolrwydd**

8. Ar lefel genedlaethol, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau sy'n gyfrifol am agenda diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n atebol, fel ei gyd-Weinidogion, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn lleol, ar sefydliadau unigol y gwasanaethau cyhoeddus, sydd â threfniadau llywodraethu sefydledig, y mae'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau a'r atebolrwydd am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at agenda diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus.

9. Nid yw'r Grŵp yn newid yr atebolrwyddau hyn, ond y mae yn ceisio cael newid sylweddol yng nghyflymder y diwygio, a hynny trwy harneisio cyd-arweiniad aelodau'r Grŵp, a chymuned ehangach arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus.

10. O fewn y Grŵp, bydd pob un o'r cadeiryddion cydweithio cenedlaethol a rhanbarthol yn datblygu cynllun gwaith ar gyfer symud yr agenda ddiwygio yn ei blaen yn eu hardal hwy, a bydd y Grŵp yn cytuno ar hynny gyda'i gilydd. Bydd cadeiryddion y rhaglenni gwaith cenedlaethol a'r cydweithio rhanbarthol yn atebol i'r Gweinidog mewn perthynas â chynnydd o'u cymharu a'r cynlluniau gwaith cytunedig hyn. Datblygir fframwaith mesur fel cymorth i ddangos ac adrodd ynghylch y cynnydd a wneir yn y gwahanol feysydd.

11. Bydd y cyd-arweiniad gwleidyddol ar gyfer yr agenda ddiwygio yn dod ynghyd dan Gyngor Partneriaeth diwygiedig ar gyfer Cymru. Bydd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn mynd â materion a nodwyd gan y Grŵp i'r Cyngor Partneriaeth, neu fforymau priodol eraill gan gynnwys Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Chyngor y Prif Swyddog Gwybodaeth (sy'n darparu'r llywodraethu strategol ar gyfer datblygu TGCh yng Nghymru), i gytuno arnynt lle bo angen. Bydd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu yn cymryd i ystyriaeth y goblygiadau i'r gweithlu o ran y gwaith a wneir o fewn y Grŵp.

12. Bydd ysgrifenyddiaeth fechan yn cefnogi'r Grŵp. Bydd swyddogion arweiniol yn Llywodraeth Cymru, sy'n tynnu oddi ar adnoddau o bob rhan o gymuned y gwasanaethau cyhoeddus, yn cefnogi pob rhaglen waith genedlaethol. Hefyd, bydd cefnogaeth i gydweithio rhanbarthol yn cael ei datblygu i adlewyrchu anghenion sy'n esblygu, a bydd y partneriaid allweddol ym maes diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n mynychu'r Grŵp hefyd yn cefnogi rhaglenni gwaith penodol lle bo angen.

**Aelodaeth o Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus**

| | |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| **Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau (Cadeirydd)** | Carl Sargeant AC |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau** | June Milligan |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Sgiliau** | Emyr Roberts |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** | David Sissling |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad** | Michael Hearty |
| **Cadeiryddion y Rhaglen Genedlaethol** | |
| **Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Argymhellion Simpson** | Jo Farrar (CBS Pen-y-bont ar Ogwr) |
| **Rheoli Asedau a Chaffael** | Tracey Lee (Cyngor Dinas Casnewydd) |
| **Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed** | Andrew Goodall (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan) |
| **Cadeiryddion Cydweithio Rhanbarthol** | |
| **Rhanbarth Gogledd Cymru** | Mary Burrows (Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr) |
| **Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru** | Mark James (Cyngor Sir Gâr) |
| **Rhanbarth Bae Abertawe** | Steve Phillips (CBS Nedd Port Talbot) |
| **Rhanbarth Gwent** | Paul Matthews (Cyngor Sir Fynwy) |
| **Rhanbarth Caerdydd a'r Fro** | Jon House (Cyngor Caerdydd) |
| **Rhanbarth Cwm Taf** | Peter Vaughan (Heddlu De Cymru) |
| **Partneriaid Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus** | |
| **Ysgrifennydd Cyffredinol Cymru Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) (Sylwedydd)** | Martin Mansfield |
| **Archwilydd Cyffredinol Cymru (Sylwedydd)** | Huw Vaughan Thomas |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)** | Steve Thomas |
| **Cymdeithas Prif Weithredwyr (SOLACE Cymru)** | Colin Everett |
| **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** | Graham Benfield |

Atodiad 2

**Compact cydweithio rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio'n genedlaethol a rhanbarthol.**

**Deg prif gam ar gyfer cydweithio**

- Rhannu gwasanaethau addysg a gwella ysgolion - Medi 2012
- Canolfannau Comisiynu Rhanbarthol a chydweithio i wella Gofal Cymdeithasol - 2012/13
- Cydweithio er mwyn rheoli gwastraff wrth gaffael
- Ffurfio dwy Asiantaeth Cefnffyrdd a fyddai'n arwain at edrych ar ehangu'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol
- Cyflwyno'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn rhanbarthol 2013-14
- Achos Busnes erbyn Gwanwyn 2012 i nodi ein hopsiynau o ran casglu trethi, naill gydag ardoll rhanbarthol neu genedlaethol
- Adolygiad o'r ffordd orau o drefnu cronfeydd pensiynau awdurdodau lleol yng Nghymru
- Fel y nodir yn strategaeth y Grŵp TGCh Gwasanaethau Cyhoeddus, caffael yn genedlaethol a datblygu canolfannau data Cymreig
- Datblygu Gwasanaeth Safonau Masnach cenedlaethol, yn ddibynnol ar achos busnes cenedlaethol
- Adolygiad manwl o gynllunio rhag argyfyngau (i'w gwblhau Mai 2012)